

3. CHWIPIWR, DYRNWR A SWADEN (Haf)

Pêl denis oedd Swaden. Roedd yn byw mewn cwpwrdd dan grisiau hefo dwy raced, ymbarél a ffon. Roedd yn hapus yn y cwpwrdd, ond casâi'r dyddiau pan gâi ei gludo i'r cwrt tenis i gael ei hyrddio'n ôl ac ymlaen dros y rhwyd.

Clusten! – 'Aw!' Dyrnod! – 'Owww!'

Roedd yn brifo. Yn ofnadwy.

'O na fyddai'r haf drosodd,' meddai'n gwynfannus un noswaith. 'Roeddwn i'n arfer bod yn wyn a gwlanog. Ond, drychwch arna i nawr! Dwi'n foel ac yn gleisiau llwyd drostaf.'

Ond doedd dim cydymdeimlad i'w gael oddi wrth y ddwy raced. Chwipiwr a Dyrnwr oedd eu henwau, a'r unig beth oedd yn bwysig ganddynt hwy oedd ennill pob gornest ar y cwrt.

'Wnei di ddim para tan ddiwedd yr haf hyd yn oed,' meddai Chwipiwr yn annymunol. 'Rwyt ti'n colli dy sbonc. Bydd fy mherchennog i'n sicr o gael gwared ohonot.'

'Mae o'n iawn,' cytunodd Dyrnwr. 'Dyw pêl wedi colli'i sbonc yn dda i ddim ond y domen sbwriel.'

Y noson honno roedd Swaden mor ddigalon fel na allai gysgu. 'Helpwch fi! O helpwch fi, helpwch fi,' ymbiliodd dro ar ôl tro ond

heb wybod pwy fyddai'n ei helpu.

Nawr doedd Swaden heb weld angel erioed. A dweud y gwir, pe baech chi wedi ei holi ymlaen llaw, byddai wedi dweud wrthych nad oedd yn credu mewn angylion. Ond pan ymddangosodd bod disglair gerllaw'r ffon yn fwyaf sydyn, gwyddai Swaden heb unrhyw amheuaeth fod angylion yn bodoli'n wirioneddol.

'Cwyd dy galon, Swaden,' meddai'r angel. 'Gofynnaist am gymorth. Felly dyma fe. Ond rhaid i ti aros yn llonydd am ennyd.'

Teimlodd Swaden gyffyrddiad ysgafn ar un o'i gleisiau, yna teimlad hyfryd o gynhesrwydd trwyddo.

'Dyna ti!' meddai'r angel. 'Nawr mae gennyt adenydd.'

'Ble?' holodd Swaden gan rowlio i gyfeiriad y drych. 'Wela i ddim adenydd.'

'Maen nhw'n anweledig,' eglurodd yr angel. 'Ond po fwyaf y byddi'n eu defnyddio, cryfa'n byd fyddan nhw'n tyfu. Sy'n fy atgoffa i – mae gen i rywbeth arall i ti.'

'Fydda i'n gallu ei weld o?' meddyliodd Swaden.

'Na!' chwerthodd yr angel. 'Enw newydd ydi o.'

'Beth ydi o?' holodd Swaden gan obeithio cael enw oedd yn swnio'n dda megis Rhydderch neu Llywelyn.

Roedd golwg ddireidus ar yr angel ond nid oedd am ddweud mwy ar hyn o bryd. 'Cei wybod pan fydd dy adenydd wedi cyrraedd eu llawn dwf.' A gyda hynny diflannodd.

Roedd Swaden yn llawn cynnwrf. 'Chwipiwr! Dyrnwr! Deffrwch!' Roedd bron â marw eisiau dweud y cyfan wrthynt. 'Dwi newydd gyfarfod angel. A wnewch chi byth goelio! Fe roddodd bâr o adenydd anweledig i mi ac enw newydd.'

Chwarddodd y racedi dros y lle.

'Mae'r gêm chwaraeaist ti neithiwr wedi drysu dy ben di, Swaden,' meddai Chwipiwr gan bwffian chwerthin. 'Rwyt ti'n barod am y domen sbwriel reit siŵr.'

'Nac ydw i,' llefodd Swaden. 'Dim nawr a minnau'n berchen adenydd.'

'Fyddi di angen nhw, mêt,' meddai Dyrnwr yn wawdlyd. 'Fe glywes fy meistr yn dweud fod yna bencampwriaeth yfory.'

'Pencampwriaeth?' Suddodd calon Swaden. Mewn

pencampwriaeth byddai'n rhaid sboncio nid am ryw awr neu ddwy ond drwy'r dydd!

Ac yn wir i chi, y bore canlynol cymerwyd y ddwy raced a'r ddwy bêl allan o'r cwpwrdd a'u cludo i'r cwrt tenis.

'Dyma fi'n dod. Wyt ti'n ddigon dewr?' gwatwarodd Chwipiwr wrth i Swaden gael ei fwrw i'r awyr yn ergyd gyntaf yr ornest.

'Helpa fi . . . helpa fi . . .' sibrydodd Swaden, heb fod yn sicr a oedd ganddo adenydd anweledig go iawn, ond gan wneud ei orau i'w hysgwyd prun bynnag.

'Hei! Be ddigwyddodd rŵan?' gwaeddodd perchennog Chwipiwr wrth i'w raced fethu'r bêl.

Yr hyn a ddigwyddodd oedd fod Swaden wedi hedfan ddwy gentimetr uwchlaw'r raced. Ond ni wyddai'r perchennog hyn wrth gwrs.

'Mae fel petai'n racedi ni'n llawn tyllau,' cwynodd y ddau ddyn wedi iddynt gael cosfa yn y rownd gyntaf.

'Dyna ni – rhowch y bai arnon ni!' poerodd Chwipiwr. 'Nid ni sydd ar fai ond y bêl.'

Rhoddodd Swaden sbonc fach o lawenydd. Doedd yr adenydd anweledig heb ei arbed rhag pob cnoc, ond roedd pethau'n llawer gwell nag o'r blaen.

'Diolch, Angel,' sibrydodd, gan obeithio fod yr angel, lle bynnag yr oedd, yn ei glywed.

Yn anffodus, Dyrnwr oedd yr un a'i clywodd. 'Well i ti arbed dy anadl,' rhybuddiodd. 'Fyddi di angen o. Falle bod adenydd anweledig wedi achub dy groen di heddiw. Ond maen nhw am chwarae parau nawr. Bydd hynny'n golygu dwywaith gymaint o racedi, dwywaith gymaint o daro a hynny ddwywaith mor galed.'

Clusten! – 'Aw!' Dyrnod! – 'Owww!'

Roedd y raced yn dweud y gwir. Roedd yr ail hanner yn waeth na'r cyntaf. Llawer gwaeth. Gêm ar ôl gêm hyrddiwyd Swaden o amgylch y cwrt. Fe gâi ei daro mor gyflym fel na châi gyfle i feddwl heb sôn am hedfan. Gwnaeth ei orau gan ysgwyd ei adenydd gymaint â phosibl, ond roedd mor anodd canolbwyntio. Tua diwedd y set olaf syrthiodd yn glewt i'r llawr wedi ymlâdd gymaint fel mai dim ond sbonc fechan y medrodd ei chyflawni.

‘Y domen sbwriel amdani!’ rhuodd Chwipiwr, gan fwrw iddi â’i holl nerth i roi’r chwip olaf i Swaden.

‘Helpa fi . . . helpa fi . . .’ saethodd Swaden i’r awyr.

‘Da iawn ti. Mae gen ti bâr o adenydd ardderchog!’ gwaeddodd rhywun yn galonogol.

Llais yr angel ydoedd.

‘Ond dwi wedi colli fy sbonc,’ llefodd Swaden.

‘Dyw gwenoliaid ddim angen sboncio.’

Beth ar y ddaear oedd ystyr hyn? Edrychodd Swaden dros ei ysgwydd ac yno – myn brain i! – doedd ei adenydd ddim yn anweledig mwyach. Gallai weld pâr pluog o adenydd esmwyth llwyd, yn disgleirio yn yr haul. Wrth weld yr adenydd ysblennydd daeth popeth yn eglur. Roedd yn rhyfeddol! Yn wyrth!

‘Rwy’n aderyn. Fy enw yw Gwennol . . .’ Plymiodd ac yna esgyn yn uchel i’r awyr.

Yn y cyfamser, i lawr ar y cwrt tenis, roedd pedwar dyn yn chwilio am bêl denis goll.

HYD: 5–6 munud

NEGES: Rhydd Duw help i ni yn y presennol a gobaith i’r dyfodol.

DARLLEN: Hebreaid 4: 14–16, Salm 121